**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 4 MAI 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Eifion Jones, Rheinallt Jones, Meinir James, Nicola Jones, Elfyn Williams, Jenny Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng a Carys Thomas a Viv Davies.

Nododd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Cyngor Cymuned i'r Cynghorydd Carys Thomas a oedd yn priodi ar y 6ed o Fai.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed Ebrill 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Nodwyd fod dau cerbyd wedi cael ei fwcio'n diweddar.
4. **Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Cafwyd cadarnhad bod gwaith wedi ei wneud i osod cwteri mwy yn yr ardal. Nodwyd.
5. **FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y cais cynllunio.
8. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin – Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder 20mya –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
10. **Damweiniau ym Mancycapel –** Derbyniwyd adroddiad am ddamwain bellach yn Bancycapel. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth am adroddiadau'r heddlu i ddamweiniau diweddar yn yr ardal. Cafwyd cadarnhad bod y Cyngor Sir a'r Heddlu yn datblygu cynigion ar gyfer yr ardal gydag ymgynghoriad i'w gynnal yn fuan gyda'r Cyngor Cymuned.
11. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.

12. **Digwyddiad Hyfforddi Diffibriliwr –** Cadarnhaodd y Clerc yn dilyn trafodaeth gyda Phwyllgor y Neuadd Gymunedol byddai dyddiadau awgrymedig yn cael eu ddarparu i Ambiwlans Sant Ioan a disgwylir cadarnhad o argaeledd. Nodwyd.
13. **Digwyddiadau ymgynghori Ynni Bute** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
14. **Glanhau llochesi bws** – Derbyniwyd cadarnhad byddai'r Cyngor Sir yn cychwyn ar y rhaglen glanhau llochesi bws yn fuan. Nodwyd.
15. **Tyllau i'w drwsio rhwng Cilgadan a Bryncochbach –** Derbyniwyd cadarnhad fod rhain wedi eu trwsio. Nodwyd.
16. **Wyneb y ffordd ar droad Llwynyreos yng Nghwmffrwd –** Derbyniwyd cadarnhad fod yr ardal wedi ei asesu a'i nodi i fod mewn cyflwr gwael, felly wedi ei gynnwys fel safle gwaith cyfalaf posib am y flwyddyn, os ni fyddai hynny'n bosib. bydd gwaith llenwi yn cael ei wneud.
17. **Wynebedd gwrth-sgid yn gyffredinol yn y Gymuned –** Derbyniwyd cadarnhad y byddai atgyweiriadau yn cael eu gwneud lle bo hynny'n briodol yn dilyn archwiliadau diogelwch, er hynny nid oedd cyllideb ar gael i ailosod yr arwynebau hyn yn bresennol. Nodwyd.
18. **Pyllau dŵr rhwng Fferm Capel a Fforest** – Derbyniwyd cadarnhad bod y draeniau a'r ffosydd wedi eu gwirio a'u clirio. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Newyddion Diweddaraf. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru –** Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 25ain Ebrill. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cyng Janet Knott. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau hyfforddi Ebrill a Mai. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru –** Cais am gynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ar 23ain Mehefin. Nodwyd
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwahoddiad i fynychu Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar 12fed Mehefin a 24ain Gorffennaf. Bydd Aelodau'n cadarnhau argaeledd i'r Clerc.
7. **Eglwys Gadeiriol Tyddewi –** Gwahoddiad i Wasanaeth Dathlu i nodi Coroni Eu Mawrhydi y Brenin a'r Frenhines Gydweddog ar ddydd Sul 7fed Mai 2023. Bydd y Cadeirydd yn mynychu ar ran y Cyngor.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad o daliad 1/3 o braesept 2023-24, sef £8,460. Nodwyd.
9. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct –** Nodwyd.
10. **Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin –** Gwahoddiad i Rali CFfI Sir Gâr ar yr 13eg o Fai. Bydd y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn mynychu ar ran y Cyngor.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens.
2. Datganodd y Cyng Nicola Jones ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem. Nododd y Clerc fod y fainc yn heol Bolahaul nawr wedi newid. Cymeradwywyd yr anfoneb gan Star Forge Fabrication am £380.00 ynghyd â TAW.
3. Cadarnhaodd y Clerc cost cynnyrch selio ar gyfer y paneli gwybodaeth hanesyddol gyda gost o £13.99.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Ebrill gyda cost o £560.00 yn cael ei gytuno. Cymeradwywyd taliad hefyd o £280.00 am waith a wnaed o dan y contract torri gwair yn Idole a Glanmorlais ar gyfer y flwyddyn 2023.

**9. Adroddiad Cyllid Blynyddol 2021-22**

Nododd y Clerc derbyn y Ffurflen Flynyddol archwiliedig ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2022. Roedd yr archwiliad wedi'i gwblhau a chafwyd adroddiad diamod. Cadarnhaodd y Clerc fod yr adroddiad wedi ei hysbysebu fel bo angen. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda threfniadau ariannol y Cyngor.

**10. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Nododd y Clerc fod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i fod yn Gyngor cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ystyriodd y Cyngor y materion a cytunwyd yn unfrydol i mabwysiadu penderfyniad yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni'r amodau yn unol ag Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei fod yn gyngor cymuned cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

**11. Taliadau a Lwfansau Aelodau 2023-24**

Rhoddwyd ystyriaeth i penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn 2023-24 fel a ganlyn.

**Cost Gofal** - Roedd rhaid i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol.

Byddai hyn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd hyn.

**Costau a Threuliau 1 –** Roedd rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £156 y flwyddyn ar gael i bob un o'i aelodau tuag at gostau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Chwefror bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i'r Clerc nad yw'n dymuno hawlio'r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

**Costau a Threuliau 2** – Roedd rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swydd.

Cytunwyd i ddarparu ar gyfer ad-daliad am gost nwyddau swyddfa. Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Chwefror bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i'r Clerc nad yw'n dymuno hawlio'r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

**Swyddi Uwch** – Gall y Cyngor darparu taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i o un ac uchafswm o tri aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau. Cytunwyd i ddarparu'r taliad hwn.

**Teithio** – Gall y Cyngor wneud taliadau i bob un o'i aelodau mewn perthynas â chostau teithio am fynychu dyletswyddau cymeradwyyd. Roedd hyn yn ddewisol. Nodwyd a cytunwyd hyn.

**Aros dros nos** – Gall y Cyngor, os yw dyletswydd yn gofyn am aros dros nos, awdurdodi ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau ar y cyfraddau uchaf a gyhoeddwyd. Roedd hyn yn ddewisol.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

**Colled Ariannol** – Gall y Cyngor dalu iawndal colled ariannol i bob un o'i aelodau, lle bu colled o'r fath, am fynychu dyletswyddau cymeradwy fel y'u cyhoeddwyd.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

**Lwfans Presenoldeb** – Gall y Cyngor dalu lwfans presenoldeb i aelodau. Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys oedd £30 ac ni fydd gan aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawl i hawlio lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.

Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau presenoldeb, rhaid iddo lunio cynllun i'w fabwysiadu'n ffurfiol a gwneud darpariaeth iddo fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhaid i daliadau am bresenoldeb fod mewn perthynas â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor neu fel arall drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.

Bydd gan bob aelod o'r cyngor hawl i'r taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn taliad drwy hysbys'r Clerc (yn ysgrifenedig). Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**Pennaeth Dinesig** – Roedd y Cyngor yn gallu roi taliad Pennaeth Dinesig i'r Cadeirydd hyd at uchafswm o £1,500. Roedd hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Roedd y taliad hwn yn ychwanegol at y gyllideb o £400 a ddyrennir i weithgareddau'r Cadeirydd. Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**Dirprwy Bennaeth Dinesig** – Gall y Cyngor roi taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i'r Is-Gadeirydd hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**12. Cytundeb Yswiriant 2023-24**

Rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Yswiriant y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 gyda 2[il] flwyddyn y cytundeb 5 mlynedd wedi ei nodi a'i gymeradwyo ar gost o £598.86.

**13. Digwyddiadau Cymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol 2023 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
  - Roedd Arwyn Edwards wedi cytuno i wneud y beirniadu ar gyfer y gystadleuaeth.
- Cystadleuaeth Bwgan Brain;
  - Drafodwyd tarian bosibl ar gyfer cystadleuaeth ymdrechol Gymunedol gyda theulu Mair Stephens a'i chymeradwyo. Bydd y Clerc yn darparu rhai enghreifftiau i'w hystyried gan y Cyngor.

**14. Cynllunio**

1. **PL/05807** - Cartref ar wahân arfaethedig a gwaith cysylltiedig - Plot 3, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DS. Dim gwrthwynebiadau.
2. **PL/05677** - Storfa faetholion o bridd, ynghyd â dŵr budr o dan y storfa ddaear, i gydymffurfio â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a Rheoliadau SSAFO, a Rheoliadau Llygredd Amaethyddol arfaethedig Cymru - Fferm Gelli, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5PD. Dim gwrthwynebiadau.

**15. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **CTEM** **£793.19** Tyniadu Ionawr – Mawrth gyda Gwrthdroi tyniad TG (Medi 2022)

| **2.** | **Disgrifiad** | **Cyflog** | **Costau** | **Cyfanswm Gros** | **Treth wedi tynnu ffwrdd** | **YG wedi tynnu ffwrdd** | **Cyflog Net** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Ebrill a chostau** | **£679.06** | **£26.00<br>£14.40<br>£7.00<br>£8.05** | **£745.10** | **£281.40<br>-£0.40** | **-£29.61** | **£483.14** |

**3. CTEM** **£281.40** Tniadau Ebrill

**4. Star Forge Fabricators** **£456.00** Fainc Heol Bolahaul £380.00 gyda TAW £76.00 Gweler eiem 7.2

**5. Michael Leefe** **£560.00** Taliad Ebrill (gweler eitem 8)

**6. Michael Leefe** **£280.00** Torri gwair (gweler eitem 8)

**7. Zurich Municipal** **£598.86** Polisi Yswiriant 2023-24 (gweler eitem 12)

**8. Comisiynydd Gwybodaeth** **£40.00** Cofrestru diogelwch data 2023-24

**15. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd bod ymarferiad casglu data cyflymder yn cael ei gynnal yng Nghwmfffrwd. Bydd y Clerc yn gofyn am y canfyddiadau.
2. Bydd y Clerc yn gofyn am wybodaeth am nifer y teithiau heb eu cyflawni gan ddarparwyr bysiau yn y Gymuned.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 1af Mehefin 2023.**